



BRITISH ACADEMY
OF FILM AND TELEVISION ARTS
Cymru



NOKIA
Developer

The Windows 8 "Power Up" Cystadleuaeth App Gemau

TAFLEN WYBODAETH

LLINELL AMSER:

8.00yh Dydd Mercher 26 Mehefin	Cystadleuaeth 'Power Up' yn cael ei gyhoeddi
9:00yb Dydd Iau 27 Mehefin	Cofrestru yn agor ar: www.bafta.org/wales
6:00yh Dydd Sul 5 Ionawr	Hunain-Gyhoeddi eich app Windows 8 i'r ystorfa Windows 8 DU i'w hystyried
6:00yh Dydd Sul 12 Ionawr	Dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi eich app ar y'r ystorfa Windows 8
Dydd Llun 27 Ionawr	Penderfyniad beirniadu terfynnol.
Dydd Mercher 29 Ionawr	Ennillwyr yn cael ei hysbysu.
Chwefror 2014	Seremoni Wobrwyo a'r ennillydd yn cael ei gyhoeddi

PROSES COFRESTRU:

Cofrestru yn agor ar: Dydd Iau 27 Mehefin 2013

Cofrestru drwy ebostio :

Claire Heat, Cydlynnydd Digwyddiadau a Gwobrau, BAFTA Cymru - claireHe@bafta.org

Mae angen i chi nodi:

- 1) Enw pob person yn y tîm – hyd at 5 yn nodi Capten y tîm neu y brif cyswllt
- 2) Enw'r Stiwdio (os yn briodol)
- 3) Manylion cyswllt o bob aelod o'r tîm yn cynnwys ebost/ rhifau ffôn/ cyfeiriad post.

Nodwch, mae'n angenrheidiol bod yr unigolyn, neu os yn dîm, mae angen i rhan fwyaf o'r tîm wedi ei leoli yng Nghymru, unai mewn preswyl parhaol neu yn astudio Addysg Pellach neu Addysg Uwch yng Nghymru.

Sicrhewch eich bod wedi darllen y **Telerau ac Amodau** sydd yng nghlwm a'r gystadleuaeth.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch a:

Claire Heat, Cydlynnydd Digwyddiadau a Gwobrau , BAFTA Cymru - claireHe@bafta.org / Ff: 029 20223898

Help ychwanegol sydd a'r gael:

I FYFYRWYR: <https://www.dreamspark.com/student/Windows-8-App-Development.aspx>

Mae DreamSpark yn rhaglen Microsoft sydd yn cefnogi addysg technegol drwy darparu mynediad i feddalwedd Microsoft ar gyfer ddibenion dysgu ac ymchwil. Mae DreamSpark yn syml: mae'n rhoi offer dylunio a datblygydd Microsoft ar lefel proffesiynol am ddim i'r myfyrwyr fel eu bod nhw yn cael dilyn eu breuddwyd ac yn gallu creu'r datblygiad nesaf mewn technoleg – neu i gael dechrau da yn eu gyrfaedd. Felly, os ydech chi'n fyfyrwyr, ewch ar wefan DreamSpark a manteisiwch ar y cyfan sydd ganddo i'w gynnig.

I BOBLSYDDYNDECHRAUEUGYRFA:

<http://www.microsoft.com/bizspark/SoftwareAndTools/Default.aspx>

Mae Microsoft® BizSpark® yn rhaglen byd eang sydd yn helpu meddalwedd newydd i lwyddo drwy rhoi mynediad i feddalwedd datblygu fyddai'n eu cysylltu a chwarewyr allweddol yn y diwydiant, yn darparu marchnata. Yn ychwanegol i hyn mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys mynediad i Windows Azure, llwyfan cynhwysfawr, grymus a hyblyg ar gyfer ceisiadau a gwasanaethau creu ar y we. Mae BizSpark hefyd yn cynnig cefnogaeth technegol, hyfforddiant busnes a rhwydwaith o dros 2,000 o bartneriaid i gysylltu aelodau deoryddion, buddsoddwyr, cynghorwyr, asiantaethau a hosters. Ers iddo gael ei sefydlu yn 2008, mae mwy na 45,000 o gwmnïau mewn dros 100 o wledydd wedi ymuno a BizSpark.

CYHOEDDI WINDOWS 8 : Mi fydd angen i chi gael cyfrif Microsoft (nodwch os ydych yn fyfyrwr mae'n bosib i chi ei gael drwy DreamSpark) . Ar gyfer creu cyfrif Microsoft ewch i:

<http://msdn.microsoft.com/en-gb/library/windows/apps/hh974578.aspx>

Mi fydd angen i chi gael Windows 8 ar eich cyfrifiadur (eto os ydych yn fyfyrwr mae'n bosib i chi ei gael drwy DreamSpark). I uwchraddio i Windows 8, ewch i:

<http://windows.microsoft.com/en-GB/windows-8/upgrade-to-windows-8>

Mae hwn yn gyfle gwych ac rydym yn awgrymu eich bod yn dechrau cynllunio nawr:

- Pwy sydd yn mynd i wneud beth?
- Pwy sydd yn mynd i fod yn Gaptan ar y tîm?
- Pwy ddyddiau ac oriau ydych yn mynd i weithio ar y gystadleuaeth?
- Beth yw eich amserlen ar gyfer cyhoeddi pob gêm?

Mae'n bosib i chi greu cais unigol, ond yn amlwg os ydych mewn tîm mae'n bosib i'r pwysau gwaith cael ei rannu. Am fwy o wybodaeth am Windows 8 gweler <http://dev.windows.com> a <http://design.windows.com>